

Cerddoriaeth boblogaidd

Maes astudio 4 - TGAU Cerddoriaeth CBAC

Mae cerddoriaeth boblogaidd yn cynnwys:

- **POP**
- **ROC**
- **RAP**
- **HIP HOP**
- **REGGAE**

Yn ogystal â llawer o genres eraill, e.e. soul, ska, metel trwm, R&B, gwlad, roc a rôl.

ASIAD: pan fydd dau arddull gwahanol yn cael eu cymysgu â'i gilydd. Gall hyn fod yn ddau arddull o gerddoriaeth boblogaidd e.e. 'metel rap', neu gallai gyfuno genre cerddoriaeth boblogaidd ag arddulliau eraill, gwerin-roc, efengyl, cerddoriaeth y byd, clasurol i greu sain newydd a diddorol. Mae **asiad jazz** (jazz a phop) yn genre poblogaidd.

Offerynnau

GITÂR DRYDAN:

- **Gitâr flaen:** mae'n chwarae'r alaw/unawdau/riffiau
- **Gitâr rythm:** mae'n chwarae'r cordiau/cyfeiliant.

GITÂR FAS: mae'n chwarae'r llinell fas.

CIT DRYMIAU: mae'n darparu'r curiad.

PRIF GANWR: dyma'r prif leisydd.

LLEISIAU CEFNDIR: cantorion sy'n darparu harmoni.

Gall grwpiau pop/roc hefyd gynnwys offerynnau **acwstig** (nid trydanol) e.e. trwmped, trombôn, sacsoffon a/neu allweddellau/syntheseinyddion electronig.

Nodweddion a thechnegau a geir mewn cerddoriaeth boblogaidd

Riff	Patrwm byr wedi'i ailadrodd.
Morthwyllo	Bys yn dod i lawr yn sydyn ar y llinyn.
Plygu traw	Addasu (plygu'r) traw ychydig.
Cordiau pŵer	Cord gitâr sy'n defnyddio'r gwreiddyn a'r 5 ^{ed} nodyn (dim 3 ^{ydd}).
Ystumiant	Effaith sy'n ystumio'r llais (yn creu sain 'grungy').
Bas slap	Sain ergydol ar y gitâr fas a wneir drwy adlamu'r llinynnau ar y bwrdd cribell.
Llenwi	Unawd drwm byr byrfyfyr.
Trawiad ymyl	Bwrw ymyl a phen y drwm ar yr un pryd.
Belt	Sain leisiol ddisglair a phwerus, yn uchel yn llais y frest.
Falsetto	Llais gwryw mewn cwmipas uwch nag arfer.
Sillafog	Un nodyn cael ei ganu fesul sillaf.
Melismataidd	Pob sillaf yn cael ei ganu i nifer o nodau gwahanol.
A cappella	Lleisiau yn canu heb gyfeiliant offerynnol.

Gall strwythur cân bop/roc gynnwys:

CYFLWYNIAD: adran agoriadol fer, offerynnol fel arfer.

PENNILL: yr un gerddoriaeth ond geiriau gwahanol bob tro.

CYTGAN: wedi'i hailadrodd gyda'r un geiriau bob tro (byrdwn).

WYTH GANOL: adran gysylltiol, yn aml yn wyth bar, gyda syniadau cerddorol gwahanol.

PONT: cysylltiad/pont rhwng dwy adran.

DIWEDDGLO: diweddeb i orffen y gân (coda).

*Efallai y byddwch chi hefyd yn clywed cyn-gytgan, interliwd offerynnol neu unawd offerynnol.

*Ceir caneuon stroffig, caneuon 32 bar (AABA) a blues 12 bar mewn cerddoriaeth boblogaidd hefyd.

Gallai baled roc nodweddiadol ar ffurf pennill-cytgan ddilyn y patrwm:

- Cyflwyniad
- Pennill 1
- Cytgan
- Pennill 2
- Cytgan
- Wyth Ganol
- Cytgan
- Diweddglo

Technoleg

Wedi'i fwyhau	Wedi'i wneud yn uwch (gyda mwyhadur).
Wedi'i syntheseiddio	Synau sy'n cael eu creu yn electronig.
Panio	Symud y sain rhwng seinyddion chwith a de.
Anghydweddu	Effaith oedi.
Sampl	Adran fer o gerddoriaeth sy'n cael ei haildefnyddio (e.e. wedi'u dolennu, haenog).
Datsain	Effaith atsain electronig.